# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Awel Tywi**

**Cartref Awel Tywi**
**Ffordd Bethlehem**
**Llandeilo**
**SA19 6SY**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad cwblhau'r arolygiad

30/03/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn ag Awel Tywi

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Lleoedd cofrestredig | 38 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 23/05/2017 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Yn gweithio tuag ato Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn derbyn gwasanaeth gan reolwyr a thîm o staff sy'n cael eu parchu gan y bobl sy'n byw yn Awel Tywi, eu perthnasau a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld. Mae gan yr unigolyn cyfrifol oruchwyliaeth dda o'r gwasanaeth drwy ei ymweliadau Rheoliad 73 ac offerynnau archwilio ansawdd.

Mae iechyd a lles unigolion yn bwysig i'r rhai sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Mae pobl a'u perthnasau yn cadarnhau hyn. Mae cofnodion gofal yn rhoi ymdeimlad o'r unigolyn ond mae angen cadw rhai manylion yn gyfredol. Mae gweithwyr gofal wedi'u hyfforddi'n dda ac yn wybodus am y bobl sy'n byw yn y cartref.

Mae'r amgylchedd yn gartrefol ond wedi dyddio mewn mannau. Mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, mae'n lân, ac nid oes unrhyw arogleuon drwg. Mae mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith yn unol â chanllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Llesiant

Mae pobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Mae gweithwyr gofal yn wybodus, wedi'u hyfforddi'n dda ac yn gofalu am yr unigolion sy'n byw yn y cartref. Mae ganddynt hefyd ddealltwriaeth dda o anghenion pobl a'r ffordd orau o'u bodloni. Mae cofnodion gofal yn darparu gwybodaeth am ofynion a dewisiadau'r bobl. Er bod y cofnodion yn rhoi ymdeimlad o'r unigolyn, mae angen eu cadw'n gyfredol.

Mae gweithdrefnau recriwtio, goruchwylio a hyfforddi da ar waith i sicrhau bod gan staff y sgiliau, yr wybodaeth a'r ymagwedd gywir at ofal. Mae rheolwr ymroddedig sy'n cael ei barchu gan ei dîm o staff yn arwain y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn cysylltu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i sicrhau bod pobl yn cadw mor iach â phosib. Mae staff gofal yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn pobl yn glir a chaiff hyn ei gefnogi gan bolisïau, a gaiff eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd.

Cydnabyddir dewisiadau a barn pobl. Gall pobl gymryd rhan mewn gweithgareddau un i un a grŵp o'u dewis. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ceisio safbwyntiau'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ymweliadau Rheoliad 73. Gall pobl bersonoli eu hystafelloedd gwely ag eitemau sy'n bwysig iddynt fel dodrefn, addurniadau, ffotograffau a gwaith celf. Maent yn cael dewisiadau o brydau bwyd a lluniaeth ac yn cymryd cymaint o ran â phosibl yn eu gofal.

Mae mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith ac mae staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau yn glir. Mae'r gwasanaeth yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda er bod angen ei ailwampio mewn rhai mannau.

## Gofal a Chymorth

Mae gan staff neilltuedig ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae’r gweithwyr gofal yn gallu rhoi manylion am hanes pobl a'u hanghenion gofal penodol. Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a’r bobl yn garedig a gofalgar ac maent yn mwynhau cefnogi unigolion a gweithio yn y gwasanaeth. Dywedasant *wrthym: “Rwy’n caru fy swydd ac rwy’n hoffi grymuso preswylwyr a chanolbwyntio eu gofal arnyn nhw”* ac *“Rwy’n hoffi dod i adnabod y preswylwyr a’u teuluoedd”.*

Mae pobl yn hapus gyda'r gofal y maent yn ei gael ac yn canmol y staff, dywedasant wrthym, *“maen nhw [y gofalwyr] yn wych yma, mae’n teimlo’n gartrefol iawn”* ac *“mae'n hollol hyfryd yma… mae'n gartref i mi”.* Mae agwedd aelodau'r teulu a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld hefyd yn gadarnhaol am y gofal. Dywedwyd wrthym; *“Mae fy mam yn cael gofal da iawn, maen nhw [y gweithwyr gofal] i gyd yn wych, maen nhw'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi”* ac *“mae'r staff yn adnabod y preswylwyr ac yn ofalgar iawn”.*

Dywedodd pob un o’r bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yn Awel Tywi a'u bod yn gyfforddus i godi pryder os oes angen. Dywedodd un person wrthym; *“Does gen i ddim pryderon o gwbl, mae’r staff i gyd yn garedig iawn a byddwn yn siarad â nhw pe bai gen i broblem”.* Mae perthnasau yn adleisio'r farn hon*; “Fyddwn i ddim yn oedi cyn codi pryder a gwn y byddai’n cael ei ymchwilio”* a *“Ni fyddai gennyf unrhyw broblemau o ran codi pryder ac rwy'n teimlo y byddai'n cael ei drin”.*

Mae’r cynlluniau gofal a chymorth yn cynnwys manylion da ac ar y cyfan yn rhoi ymdeimlad o'r unigolyn. Fodd bynnag, dylai cynlluniau adlewyrchu anghenion presennol yr unigolyn yn gywir, er mwyn sicrhau bod ei anghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu. Mae’r bobl, a/neu eu cynrychiolwyr yn llofnodi eu cynlluniau gofal i ddangos eu bod yn ymwneud â'u gofal. Mae gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn ymwneud â phobl ac mae hyn wedi cael ei nodi'n dda yn eu cofnodion gofal. Dywedodd un person wrthym am y gwelliannau i'w hiechyd ers symud i'r gwasanaeth *“Nid yw lefelau’r siwgr yn fy ngwaed erioed wedi bod cystal, ac rydw i wedi dechrau magu pwysau eto!”*

Mae'r gweithwyr gofal yn ymateb i ymholiadau pobl mewn da bryd, ac mae'r rhyngweithio yn gyfeillgar, yn barchus ac yn hamddenol. Mae cyfran dda o'r tîm staff yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg, a welwyd gennym yn ystod yr arolygiad.

Mae pobl yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp ac unigol rheolaidd; fodd bynnag, mae’r rhain wedi cael eu cyfyngu yn ystod cyfnodau gwaethaf y pandemig. Wrth i gyfyngiadau lacio mae cynlluniau ar y gweill i gynyddu nifer y gweithgareddau allanol ac ymweliadau gan ddiddanwyr i bobl eu mwynhau dros y misoedd i ddod.

Mae gan y gegin sgôr hylendid bwyd o bum seren gyda bwydlenni amrywiol yn cynnwys dewisiadau dyddiol. Caiff bwydlenni eu diweddaru yn ôl y tymor ac mewn ymgynghoriad â phobl.  Yn ôl pob golwg, mae adegau bwyd yn ddigwyddiadau cymdeithasol cadarnhaol a phleserus iawn. Mae prydau yn cael eu cyflwyno'n dda, maent yn boeth, ac mae dewisiadau ar gael yn rhwydd. Dywedodd un person wrthym *“Mae'r bwyd yn anhygoel! Mae dewisiadau bob amser”.*

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo arferion hylendid i leihau risgiau heintio. Mae'r staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol ac yn cydymffurfio â chanllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r rheolwr yn gweithio gydag Iechyd yr Amgylchedd a'r Bwrdd Iechyd Lleol i sicrhau bod y cartref yn bodloni ei rwymedigaethau o ran mesurau atal a rheoli heintiau.

## Yr Amgylchedd

Mae trefniadau ar waith i leihau'r risgiau i iechyd a diogelwch pobl. Mae gwaith profi a gwasanaethu cyfarpar diffodd tân a symud a thrin yn cael ei wneud o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng yn unigol ac ar gael yn rhwydd. Mae'r larymau tân o fewn cyrraedd ac mae pobl yn ymateb iddynt o fewn amser priodol pan fyddant yn canu.
Mae mesurau atal a rheoli heintiau ar waith, ac mae gorsafoedd glanweithdra a chyfarpar diogelu personol wedi'u lleoli ledled y cartref. Mae dulliau profi COVID-19 ar waith i bob ymwelydd sydd yn dod i gwrdd â'i berthynas yn y cartref. Mae mesurau priodol a diogel ar waith i hwyluso perthnasau a ffrindiau i ymweld. Mae hyn yn cael ei adolygu'n barhaus. Mae sylweddau sydd yn beryglus i iechyd yn cael eu storio'n ddiogel ac mae ardaloedd cymunol yn glir a heb beryglon. Mae gan staff domestig yr offer priodol i gyflawni eu dyletswyddau'n ddiogel. Mae trefniadau ar waith i olchi a sychu dillad pobl. Prynwyd offer ychwanegol i gynorthwyo staff gyda'r dasg hon. Mae gwiriadau gwaith cynnal a chadw, gwaith gwasanaethu ac archwiliadau trwyadl ar waith. Mae'r amgylchedd yn lân a heb unrhyw arogleuon drwg.

Mae cynllun y gwasanaeth yn galluogi pobl i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddynt yn ddiogel. At ei gilydd, mae'r amgylchedd yn cefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r addurniad mewn rhai ardaloedd wedi dyddio a byddai'n fuddiol ei adnewyddu. Mae'r ystafelloedd ymolchi cymunol, er eu bod yn lân, yn edrych yn glinigol ac nid ydynt yn groesawgar iawn i bobl fwynhau bath. Mae ystafelloedd gwely pobl wedi cael eu personoli ag eitemau o ddodrefn, addurniadau, ffotograffau a gwaith celf. Mae'r drysau deublyg newydd yn adain Tŷ Dinefwr wedi gwella'r lolfa gymunol yn fawr, ac yn ei gwneud yn ystafell olau gyda golygfeydd clir o'r ardd. Dylid ystyried ychwanegu cymorth gweledol i dynnu sylw at y cwareli gwydr yn y drysau i leihau'r risg bosibl o anaf i bobl.

Mae'r gerddi cymunol a'r tiroedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn cynnig mannau i bobl eistedd, cymdeithasu a mwynhau yn ystod tywydd cynhesach. Mae'r ardd sy'n ystyriol o ddementia ar gyfer pobl sy'n byw yn Nhŷ Dinefwr yn darparu amgylchedd diogel a synhwyraidd sydd wedi'i ddylunio'n dda iddynt ei fwynhau ac i'w hymwelwyr ei fwynhau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu cadarn ar waith. Mae'r unigolyn cyfrifol mewn cyswllt rheolaidd â'r gwasanaeth ac mae wedi ymgymryd ag ymweliadau Rheoliad 73 cyson yn ystod y pandemig. Mae AGC wedi derbyn copïau o'i adroddiadau, sy'n dangos ei bod hi'n siarad â phobl a staff fel rhan o'r ymweliadau â'r cartref. Cadarnhaodd y staff a'r bobl hyn i ni, dywedodd un *"Dwi wedi adnabod [yr unigolyn cyfrifol] ers peth amser, mae'n hawdd iawn siarad â hi ac mae ganddi ddiddordeb yn y staff a'r preswylwyr".* Mae yno ystod o offer monitro a chynhelir ystod o archwiliadau. Mae'r camau sydd eu hangen yn sgil yr archwiliadau hyn yn cael eu gweithredu a'u hadolygu'n rheolaidd.
Mae'r staff yn wybodus, ac yn gymwys i ofalu am y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae'r staff yn mynychu ystod o hyfforddiant gorfodol a phenodol i'r gwasanaeth ac mae'r cofnodion yn cadarnhau hyn. Dywedodd staff gofal wrthym am yr hyfforddiant maent yn ei gael, ac roeddent yn dangos dealltwriaeth dda o'u rôl o amddiffyn pobl. Mae'r cofnodion staff yn dangos eu bod yn cael cyfnod sefydlu da, goruchwyliaeth reolaidd ac arfarniad blynyddol. Dywedodd un gweithiwr gofal wrthym *"Rwy'n cael goruchwyliaeth yn rheolaidd, ac mae'r holl hyfforddiant a ddarperir yn fy nghefnogi yn fy swydd"*. Mae ffeiliau staff wedi'u trefnu'n dda ac yn cadw'r mwyafrif o'r dogfennau gofynnol. Cedwir contractau cyflogaeth staff yn yr adran Adnoddau Dynol ond dylent fod ar gael yn hawdd i'w harchwilio.

Mae'r staff yn siarad yn frwdfrydig am y rheolwr ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ganddo. Dywedodd gweithwyr gofal wrthym *"mae'r rheolwr yn hawdd iawn mynd ato – mae'n hyfryd", "mae'r rheolwr yn wych – hawdd mynd ato ac mae'n poeni amdanom ni a'r preswylwyr"* ac *"Mae'n dda iawn yma, mae [y rheolwr] yn wych, yn uniongyrchol ac yn glir - rwy'n gwerthfawrogi hynny, mae'n deg iawn".* Mae gan y bobl sy'n byw yn y cartref, eu perthnasau a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld, farn gadarnhaol am arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth. Dywedwyd wrthym*" Does gen i ddim pryderon o gwbl, mae'r holl staff [a'r rheolwr] yn garedig iawn"*, *"Dim pryderon o gwbl – mae'r cartref a'r rheolwr yn ardderchog"* ac *"Mae hwn yn gartref ardderchog. Mae wedi ei staffio'n dda, mae'r rheolwr yn gydwybodol iawn".*

Mae'r staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau priodol, ac yn gallu esbonio eu cyfrifoldebau o ran lleihau lledaeniad COVID-19. Mae polisïau a gweithdrefnau cyfredol ar waith i gefnogi staff ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu yn rheolaidd.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 03/05/2022